15 Medi 2026

Annwyl

**ATISN 27358 – Coleg Cymraeg Cenedlaethol**

Diolch i chi am eich cais am wybodaeth a ddaeth i law ar 17 Awst 2026. Roeddech yn gofyn am yr wybodaeth ganlynol:

1. Copi o adroddiad adolygiad llywodaethiant y Coleg Cymraeg Cenedlaethol a gafodd ei gynnal gan Darwin Gray yn 2026

Rwyf wedi penderfynu bod fersiwn ddrafft o'r adroddiad sydd yn ein meddiant yn esempt rhag y gofynion datgelu o dan adran 41 Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth, ac felly rhaid ei chadw'n ôl. Mae'r rhesymau dros weithredu'r esemptiad hyn wedi'u nodi'n llawn yn Atodiad 1 y llythyr hwn.

Os ydych yn anfodlon â'r modd y mae Llywodraeth Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith ar ôl dyddiad yr ateb hwn. Dylech anfon cais am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Llywodraeth Cymru drwy'r post i'r cyfeiriad canlynol:

Yr Uned Hawl i Wybodaeth
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: rhyddidgwybodaeth@llyw.cymru

Cofiwch nodi'r cyfeirnod ATISN uchod.

Mae gennych hawl hefyd i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn y cyfeiriad canlynol:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF.

Fodd bynnag, dylech nodi nad yw'r Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn nes ei fod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

**Atodiad 1**

**Esemptiadau / eithriadau**

Mae'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yn rhoi’r hawl i unrhyw un ofyn i awdurdod cyhoeddus drefnu bod gwybodaeth y gofynnwyd amdani ar gael i'r cyhoedd yn ehangach. Gan fod rhyddhau'r wybodaeth yn golygu ei bod ar gael i’r byd, nid dim ond i’r sawl a wnaeth y cais, mae angen i awdurdodau cyhoeddus ystyried effeithiau’r cam o drefnu bod yr wybodaeth ar gael yn rhwydd i bawb. Mae’r ystyriaethau ehangach hynny yn drech nag unrhyw fuddiant personol sydd gan y sawl sy’n gwneud y cais, o ran cael gweld yr wybodaeth.

Rwyf wedi penderfynu cadw'r wybodaeth ganlynol yn ôl:

Fersiwn ddrafft o adroddiad sy’n dilyn adolygiad o lywodraethiant y Coleg Cymraeg gan Darwin Gray yn 2026.

Mae'r Atodiad hwn yn amlinellu'r rhesymau dros weithredu adran 41 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.

**Gweithredu adran 41 (gwybodaeth a ddarperir yn gyfrinachol) o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth.**

Mae Llywodraeth Cymru yn credu y dylai fersiwn ddrafft o'r adroddiad (sef yr unig fersiwn sydd gennym yn ein meddiant) gael ei eithrio rhag ei ddatgelu.

Yr unig wybodaeth a gofnodwyd sydd gennym yn ein meddiant sy'n cyfateb i'r cais yw fersiwn ddrafft cynnar o'r adroddiad. Gan ei fod ar ffurf ddrafft cynnar, mae dyletswydd o gyfrinachedd yn bodoli rhwng y Coleg Cymraeg fel 'perchennog' yr adroddiad, a Llywodraeth Cymru. Byddai rhyddhau adroddiad drafft nad yw wedi'i gadarnhau gan Fwrdd y Coleg fel un sy’n ffeithiol gywir yn torri’r ddyletswydd o gyfrinachedd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Coleg Cymraeg.

Ar adeg rhannu, nid oedd awdur yr adroddiad na'r Coleg fel y corff a gomisiynodd yr adroddiad yn fodlon nad oedd yr adroddiad drafft yn cynnwys gwallau ffeithiol. Mae fersiwn ddrafft yr adroddiad yn cynnwys anghywirdebau ffeithiol y credwn eu bod wedi'u cywiro mewn fersiynau dilynol o'r adroddiad, yn dilyn ei adolygiad gan swyddogion a Bwrdd y Coleg. Nid yw'r wybodaeth yn yr adroddiad drafft yn ddibwys gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth am lywodraethiant sylfaenol y Coleg, felly dylai unrhyw wybodaeth a ryddhawyd i'r cyhoedd fod yn gywir.

Rydym wedi dod i'r casgliad bod y wybodaeth yn deilwng o gael ei diogelu oherwydd ei statws drafft sy'n cynnwys anghywirdebau a fyddai'n niweidiol yn y parth cyhoeddus. Byddai cyhoeddi adroddiad drafft gyda gwallau ffeithiol yn niweidiol i'r Coleg ac enw da'r awdur, gan y byddai mewn rhai mannau yn rhoi adlewyrchiad a manylion anghywir o drefniadau ac arferion llywodraethiant y Coleg. Mae perygl uniongyrchol o niwed i enw da i'r Coleg pe bai'r cynnwys yn dod yn gyhoeddus, heb gywiriad, her, na chyd-destun.